cymdeithas yr IAITH gymraeg

# Ysgolion Pentre

## Yr achos dros Resymoli Cadarnhaol

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Pen Roc,
Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ
swyddfa@cymdeithas.org - 01970 624501

Mehefin 2008

Mae Cymdeithas yr Iaith yn cydnabod na ellid cynnal yr holl rwydwaith o ysgolion pentrefol fel y mae. Mae pwysau o bob cyfeiriad ar yr ysgolion ac nid ydym yn dymuno gweld dirywiad graddol, anochel. Mynnwn fod llawer o ysgolion pentrefol sy'n hollol hyfyw fel y maent, ond ni ellir cynnal y statws quo mewn llawer o'r ysgolion pentrefol eraill. Cytunwn yn llwyr fod yn rhaid rhesymoli - *y ddadl yw rhwng rhesymoli negyddol trwy'r broses ddiddychymyg o gau ysgolion neu resymoli cadarnhaol trwy osod strwythurau newydd gan gydweithio gyda rhieni, llywodraethwyr a chymunedau lleol, a chan weld addysg gynradd yng nghyd-destun ehangach cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn yr ardaloedd gwledig.*

Yn y ddogfen hon, fe ddadleuwn dros **Resymoli Cadarnhaol** gan ein bod yn gweld pwysigrwydd allweddol yr ysgolion pentrefol i gynnal llawer o gymunedau Cymraeg, **a hefyd** fel modelau addysgol a allent fod yn flaengar iawn, ac yn esiampl i ardaloedd trefol.

Dadleuwn fod cyfrifoldeb arbennig gan Lywodraeth y Cynulliad o ran gosod arweiniad yn y mater hwn, a hynny am nifer o resymau –

a) Llywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol am y Canllawiau am adolygu'r cyflenwad o leoedd mewn ysgolion – *credwn fod diffygion mawr o ran y canllawiau eu hunain, ac yn bwysicach o ran eu gweithrediad.*

b) Rheolaeth Llywodraeth y Cynulliad ar Gyllid Gwelliannau Ysgolion - *mae Awdurdodau Lleol yn defnyddio'r pwysau cyllidol hyn o du Llywodraeth y Cynulliad yn rheswm dros gyflwyno cynlluniau rhesymoli negyddol. Y canfyddiad yw bod Llywodraeth y Cynulliad gyda pholisi drws cefn o orfodi Awdurdodau Lleol i gau llawer o'r ysgolion. Mewn cyfarfod ffurfiol yn rhan o broses ymgynghori am ddyfodol Ysgol Llanddeusant ar 17.1.08 gofynnodd athrawes (yn ôl y cofnodion) gwestiwn "Os yr ydych yn penderfynu cau ysgol, oes pwynt i ni gwyno?" Ateb deiliad portffolio addysg Cyngor Ynys Môn oedd "Mae'r Cynulliad yn pwyso arnom i gau ysgolion bychain. Er hynny nid ydynt yn dweud wrthoch chi am beidio gwrthwynebu!" Y canfyddiad felly yw bod Llywodraeth y Cynulliad - trwy'r canllawiau cyfredol - yn galw am ymgynghori ar y naill law, tra ar y llaw arall yn pwyso am gau ysgolion.*

c) Y cysyniad o wneud ysgolion pentrefol yn hyfyw trwy ddefnyddio'r adeiladau a'r adnoddau ar gyfer ystod o wasanaethau cymunedol h.y. eu hystyried yn adnoddau datblygu cymunedol hanfodol y mae cyflwyno addysg gynradd yn rhan o'u swyddogaeth - *Mae creu fframwaith gweinyddol a chyllidol i wneud hyn yn ehangach, yn fater ehangach nag addysg yn unig, a chyfeiriwn y nodion felly at y Gweinidogion Addysg a Materion Gwledig y Cynulliad ac yn y man cyntaf at ymchwiliad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig.*

Mehefin 2008

# I. EIN RHAGDYB DROS YSGOLION PENTREFOL CYMRAEG

Mae Cymdeithas yr Iaith yn cydnabod yn agored fod ganddi ragdyb dros ysgolion pentrefol Cymraeg, a hynny oherwydd eu llwyddiant a'u pwysigrwydd ar lawer o gyfrifon –

**a) YN ADDYSGOL -** Mae achos '*prima facie*' dros honni fod ysgolion pentrefol yn llwyddiannus iawn yn addysgol gan fod y siroedd hynny sydd â'r gyfran uchaf o ysgolion pentrefol ymhlith y rhai sy'n cael y canlyniadau academaidd gorau. Gallai fod yn rhannol oherwydd y lefel o gefnogaeth deuluol a chymunedol sydd mewn ysgol bentrefol, yr ymdeimlad o sicrwydd sy gan y plentyn ifanc, potensial mentora, a'r angen i bawb gymryd rhan mewn gweithgareddau. Y mae cymhareb athro/disgybl hefyd yn amlwg yn ffactor o bwys. Yn sicr, nid problemau addysgol sydd wedi cymell Awdurdodau Lleol i fygwth dyfodol ysgolion pentrefol. Yn hytrach na cheisio eu tanseilio, dylid cynnal ymchwil i ddarganfod paham eu bod mor llwyddiannus yn addysgol a cheisio dysgu gwersi ar gyfer ysgolion trefol e.e. gallai fod yn well yn addysgol gael ysgolion cynradd trefol gyda safleoedd ymhob cymdogaeth yn hytrach nag unedau mawr canolog, er mwyn creu'r fath ar gefnogaeth gymunedol a "chymuned dysgu" sy'n nodwedd o ysgolion pentrefol.

**b) O RAN ADDYSG GYMRAEG -** Mae'r polisi cyfredol o ran ystyried effaith cau ysgolion ar addysg Gymraeg yn gul iawn ac yn adlewyrchiad o agweddau cul sy'n nodweddu darpariaeth addysg yng ngwledydd Prydain yn gyffredinol sy'n gosod sefydliadau addysg tu allan i brif ffrwd bywyd. Ystyrir yn unig a fyddai ysgol "derbyn" hefyd yn Gymraeg ei chyfrwng, gan ystyried y Gymraeg yn bwnc neu'n gyfrwng addysgu yn unig. Yn ôl tystiolaeth ymwelwyr lleyg cyson ag ysgolion (llyfrwerthwyr, llenyddiaeth mewn addysg, drama mewn addysg) mae ysgolion pentrefol Cymraeg yn arbennig o effeithiol o ran cymhathu plant mewnfudwyr i gymunedau pentrefol Cymraeg gan eu bod yn cynnig yr iaith fel allwedd mynediad i gymuned yn hytrach nag fel sgil i ddisgybl unigol yn unig. Lle mae ysgol bentrefol Gymraeg, mae addysg Gymraeg yn norm a gydnabyddir gan bawb yn hytrach na bod rhieni yn dewis yn ymwybodol i ddanfon plant at ysgol Gymraeg. Lle collir ysgol bentrefol Gymraeg, rhaid i fewnfudwyr wneud dewis ymwybodol ym mhob sir heblaw am rannau helaeth o Wynedd, ynghylch ble i ddanfon eu plant ac mae peryg colli llawer i addysg Saesneg. Hyd yn oed lle na fydd y gymuned bentrefol y lleolir yr ysgol bentrefol ynddi bellach yn bennaf Gymraeg, yr ysgol yw'r "peiriant" Cymraeg tu fewn i'r gymuned, yn ficrocosm o fel y gall y gymuned adfeddiannu'r Gymraeg yn brif gyfrwng ac yn brif gymhelliad i rieni o fewnfudwyr ddysgu'r iaith yr addysgir eu plant trwyddi. Mae cymunedau fel Mynyddcerrig yn Sir Gaerfyrddin ac Abersoch yng Ngwynedd yn enghreifftiau da.

**c) O RAN CYNNAL CYMUNEDAU -** Yr hyn sy'n gwneud casgliad o aneddleoedd yn gymuned yw'r cyfleoedd cyfathrebu cymdeithasol, yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Gellir cyfeirio at neuadd, siop, tafarn, addoldy a'r cyfle i blant chwarae ynghyd, ond y pwysicaf o'r rhain yw'r ysgol leol. Gellir defnyddio'r adeilad a'i hadnoddau ar gyfer cyfarfodydd a gweithgareddau ffurfiol ond yn bwysicach fyth y mae'r cyfleoedd cyfathrebu cymunedol anffurfiol. Mae rhieni ifainc yn gweld ei gilydd wrth yr ysgol ac mewn cyfarfodydd yn ymwneud â'r ysgol ac y mae'r plant yn magu ymdeimlad o berthyn i griw'r pentref. Daeth yn ffasiynol i fiwrocratiaid geisio cyfiawnhau "ysgolion" ardal ganolog fel "ysgolion cymunedol". Dyma bersbectif canol oed a dosbarth proffesiynol ar yr hyn a wna gymuned - sef pobl yn mynd i'w ceir i deithio i weithgareddau wedi'u trefnu. O safbwynt plant, cymuned yw mynd allan i chwarae gyda ffrindiau cyfagos am awr cyn swper. O safbwynt y mwyafrif o rieni ifainc, cymuned yw cyfathrebu anffurfiol gydag eraill sy'n rhannu'r un dyheadau o ran eu plant. Mae'r cysyniad o gymuned ac o ysgolion cymunedol mewn gwirionedd yn set o gylchoedd consentrig. Mae'n wir fod yna raddfa o weithgareddau cymunedol na ellir ond eu cynnal mewn ysgolion mawr canolog e.e. canolfannau hamdden. Yna y mae gweithgareddau cymunedol y gellir eu trefnu orau mewn pentrefi mawr sy'n gwasanaethu cylch o bentrefi e.e. gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, dosbarthiadau mwy arbenigol. Ond y mae

herydd ymdeimlad o gymuned organig na ellir ei meithrin ond yn yr union gymuned bentrefol a gweithgareddau sydd orau eu trefnu ar lefel y gymuned organig e.e. dysgu Cymraeg gyda'i gilydd a dysgu teuluol. Mae cymuned bentrefol yn teimlo perchnogaeth ar ysgol ac yn ei chefnogi ac yn ei gweld yn arwydd o obaith am barhad at y dyfodol. Ar y llaw arall, mae rhieni ifainc yn llawer llai tebyg o brynu tai mewn pentrefi sydd heb ysgol; bydd pentrefi heb ysgolion yn heneiddio heb fywyd ifanc. Mae hyn yn arbennig o wir o safbwynt y Gymraeg. Iaith gymunedol yn ei hanfod yw'r Gymraeg. Mae angen estyn ei swyddogaeth i bob maes o fywyd, ond mae ei sylfaen a'i nerth unigryw yn y gymuned leol sy'n ei defnyddio'n gyfrwng cyfathrebu beunyddiol. Yn ôl y tueddiadau cyfredol o ran cau hyd at 200 o ysgolion pentrefol Cymraeg, fe allem golli'r mwyafrif o'n cymunedau pentrefol Cymraeg o fewn y ddegawd nesaf - nid eu colli dros nos ond eu gwadu o ddyfodol. Nid ydym yn honni mai'r ysgol yw'r unig sefydliad sy'n diffinio nac yn hyrwyddo cymuned. Yn y dyddiau pan fu rhwydweithiau cymunedol cryf, a'r diwylliant Cymraeg yn gryf, ni fu colli ysgol yn gymaint o ergyd. Bellach mae pwysau mawr cymdeithasol-economaidd a diwylliannol ar gymunedau lleol, a'r ysgol yw'r adnodd pwysicaf i'w cynnal a chyda photensial (nad sy'n cael ei wireddu ar hyn o bryd) i'w hadfer.

**Ch) CASGLIAD -** Mae gan Gymdeithas yr Iaith felly ragdyb o blaid ysgolion pentrefol Cymraeg - fel ac oedd gan yr Adran Addysg yn Lloegr, er bod eu diffiniad o "ysgol fach" yn dra gwahanol i'n heiddo ni. Yn y flwyddyn 2000, fe ddywedodd y cyn-Weinidog Addysg, Jane Davidson, nad oedd angen yr un rhagdyb o blaid ysgolion pentrefol yng Nghymru gan nad oedd yr un bygythiad iddynt ac oedd yn Lloegr. Dywedodd na chaewyd ond un neu ddwy ysgol fach yng Nghymru'r flwyddyn trwy'r nawdegau. Mae'r sefyllfa hon wedi'i gweddnewid gyda bygythiad o dan dueddiadau cyfredol i 200 o ysgolion pentrefol yng Nghymru o fewn y ddegawd nesaf. Yn wyneb y trychineb sydd ar ddigwydd, fe welwn ymarfer o basio cyfrifoldeb rhwng Awdurdodau Lleol a Llywodraeth y Cynulliad. Yn yr adrannau nesaf, felly, fe ganolbwyntiwn ar yr y materion hynny sydd yn ddiamwys yn gyfrifoldebau gan Lywodraeth y Cynulliad.

# II. DIFFYGION STRATEGAETH GYFREDOL LLYWODRAETH Y CYNULLIAD YN Y MATER

## a) GWEITHREDIAD CANLLAWIAU'R CYNULLIAD O RAN CAU YSGOLION

O ran y canllawiau eu hunain (cylchlythyr 23/02) y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu gosod ar gyfer Awdurdodau Lleol o ran cynigion trefniadaeth ysgol, fe hoffem wrth gwrs weld ychwanegu canllaw sylfaenol - sef rhagdyb o blaid ysgolion pentrefol am y rhesymau a roddwyd. Ni olygai hyn na chaeid byth unrhyw ysgolion pentrefol, ond y buasai'n rhaid i'r Awdurdod Lleol sefydlu achos eithriadol dros wneud hynny. Hyd yn oed os nad ychwanegir canllaw o'r math hwn, tynnwn sylw at 4 o ganllawiau nad sy'n cael eu gweithredu'n gywir, yn ein tyb ni, ar hyn o bryd. Cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad yw sicrhau nad oes modd cam-ddehongli'r canllawiau fel ag a wnaed yn yr enghraifft yn Ynys Môn y cyfeiriwyd ati yn yr adran gyntaf. Y mae penderfyniadau Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ymarferol yn sefydlu "cyfraith achosion" o ran sut i ddehongli'r canllawiau, ac y mae'r penderfyniadau cyson i wrthod apeliadau yn erbyn cau ysgolion wedi anfon arwydd clir, yn ein tyb ni, at Awdurdodau Lleol nad oes raid cymryd y canllawiau o ddifri.

Rhai o'r apeliadau tan sylw yw'r rheiny yn erbyn cau ysgolion Alltwalis, Llanfihangel-Ar-Arth, Henllan Amgoed, Bwlchygroes, Trewyddel, Hermon, Dinas, Mynyddcerrig, Llansadwrn - ni fu dim o'r apeliadau'n llwyddiannus. O ganlyniad y mae sinigiaeth gynyddol ynglŷn â phrosesau ymgynghori a theimlad nad yw cymryd rhan yn y broses fyth yn newid penderfyniad. Ychwanegir at yr ymdeimlad hwn o ddiymadferthedd trwy fod y Gweinidog Addysg a'i rhagflaenydd yn gwrthod trafod - nac ymlaen llaw nac wedyn - unrhyw achosion penodol oherwydd ei swyddogaeth yn dyfarnu ar apeliadau. Nid oes modd felly cwestiynu'r rhesymau dros wrthod apêl na chynnig dadleuon yn bersonol ymlaen llaw. Mae hyn yn tanseilio hyder mewn prosesau ymgynghori democrataidd. Dyma'r 4 canllaw y tynnwn eich sylw at y modd y'u hanwybyddir ar hyn o bryd -

1) *Fod yn rhaid seilio unrhyw argymhelliad i gau ysgol ar ddadleuon addysgol* - Mae cylchlythyr 23/02 y Cynulliad yn honni mai'r "effaith ar safon yr addysg" (1.6) sydd bwysicaf ac eto mai "gwella safon yr addysg" (2.2) yw'r nod, ond fe amodir hyn yn (1.10) trwy barodrwydd i dderbyn "dewis arall yn cynnig addysg sydd o leiaf gystal o ran ansawdd ac amrywiaeth am gost a fyddai'n is". Dyma osod ystyriaethau ariannol yn sylfaenol. Dylai'r canllawiau newydd osod safon yr addysg eto'n ganolog a datgan na ddylid cau ysgol sy'n perfformio'n dda yn addysgol oni sefydlir fod rhesymau eithriadol - boed yn ariannol neu fel arall. Ond nid yw Awdurdodau Lleol yn dilyn hyd yn oed y canllaw presennol o wneud "gwella safon yr addysg" yn brif ystyriaeth. Mae'n wir fod Awdurdodau lleol yn defnyddio dadleuon pseudo addysgol wrth geisio cyfiawnhau penderfyniadau i gau ysgolion, ond go brin eu bod yn honni eu bod yn *seilio* eu hachos ar resymau addysgol h.y. nid methiant addysgol sy'n gyrru'r agenda i gau ysgolion pentrefol. Yn gyffredinol cydnabyddir fod ysgolion pentrefol yn cyflwyno addysg dda. Nid oes unrhyw welliannau o ran cyflwyno cwricwlwm eang, neu gynyddu cyfathrebu cymdeithasol, y gellir eu cynnig yn well mewn ysgol fawr ganolog na ellir eu cynnig llawn gystal trwy fod ysgolion pentrefol cyfagos yn cydweithio â'i gilydd. Cydnabyddwn fod unrhyw broblem arbennig yn cael ei mawrygu os bydd ysgol yn fach e.e. o ran sgil athro i gyflwyno efallai cerdd neu chwaraeon, ond eto gellir goresgyn anawsterau o'r fath trwy gronni sgiliau athrawon ysgolion cyfagos mewn moddion sy'n gweddu i'r sefyllfa leol. Credwn hefyd fod Llywodraeth y Cynulliad wedi tan gyfri gwerth addysgol y gefnogaeth gan rieni a chymuned mewn ysgol bentre', a hefyd yr ymdeimlad o sicrwydd i blentyn bach o dderbyn ei addysg yn ei gynefin. Mae cyfran llawer helaethach o rieni ac aelodau'r gymuned leol yn cymryd rhan weithredol ym mywyd ysgol bentrefol nac mewn ysgol ganolog. Yn wir, ein profiad yw bod ysgolion pentrefol - yn groes i bob rhesymeg fiwrocrataidd - yn ei chael yn haws i lenwi eu cwota o rieni-lywodraethwyr nac ydyw Ysgolion

Ardal. Rhaid cydnabod realiti hawl rhieni i symud eu plant i ysgolion tu allan i'w cymuned er y byddai'n well gennym petai pawb yn gweithio tuag at sicrhau fod canolfan addysg integredig o'r safon gorau yn eu cymuned eu hunain. Weithiau , fodd bynnag, bydd rhieni yn symud plant am resymau ymarferol e.e. diffyg meithrinfa i blant iau ac y mae angen cynlluniau holistaidd i sicrhau dyfodol ein hysgolion pentrefol cymunedol. Trwy fod ysgolion pentrefol cyfagos yn cydweithio, neu'n ffurfio un ysgol integredig aml-safle, y mae'r plant yn derbyn y gorau o'r ddau fyd yn addysgol. Esboniad yn helaethach yn adran (4) fel y credwn y dylai canllawiau newydd gynnig ystod ehangach o opsiynau cydweithio rhwng ysgolion er mwyn hwyluso'r symudiad hwn. Ein pryder yw ei bod bob amser yn haws gan fiwrocratiaid i gau ysgolion a chanoli addysg na cheisio dulliau dyfeisgar o hybu cydweithio rhwng ysgolion.

2) *Fod yn rhaid asesu effaith cau ysgol ar addysg Gymraeg* – (cylchlythyr 23/02, adrannau 1.6 ac 1.14. Fel arfer nid oes gan Awdurdodau Addysg Lleol ond un neu ddwy frawddeg i fodloni'r canllaw hwn. Dywedir yn syml fod addysg gyfrwng Gymraeg *ar gael* o fewn cyrraedd, naill ai yn yr ysgol ganolog y bwriedir danfon y plant ati neu o fewn pellter rhesymol. Dyma bersbectif dinesig gwbl anaddas at yr iaith Gymraeg mewn cyd-destun pentrefol gwledig. Mewn llawer o gymunedau pentrefol, addysg Gymraeg yw'r NORM gan fod yr ysgol bentre'n Gymraeg ei chyfrwng. Danfonir felly'r mwyafrif o blant – gan gynnwys plant mewnfudwyr - at yr ysgol Gymraeg bentrefol fel NORM. O gau'r ysgol bentrefol, rhaid i rieni wedyn wneud dewis ymwybodol ynghylch i ba ysgol i ddanfon eu plant. Mae tystiolaeth - ar ffurf datganiadau gyda ni - y buasai llawer o fewnfudwyr Saesneg yn danfon eu plant o ran dewis neu gyfleustra gwaith at ysgol drefol Saesneg pe na bai ysgol yn eu pentre'.

Ni fu Awdurdodau Addysg Lleol byth yn gwneud Astudiaeth Effaith broffesiynol o ran effaith cau ysgol ar yr iaith. Gwnaed yr unig ymchwil trwyadl yn y maes gan Gymdeithas yr Iaith. Mae'r ddogfen ymchwil *Moderneiddio Iaith Sir Gar* yn dangos y gallai hyd at 500 o blant yn y sir gael eu colli i addysg Gymraeg o weithredu argymhellion yr MEP i gau dwsinau o ysgolion pentrefol - [http://cymdeithas.org/pdf/mai_2005_moderneiddio_iaith_sir_gar.pdf](http://cymdeithas.org/pdf/mai_2005_moderneiddio_iaith_sir_gar.pdf). Mae perygl felly am golli disgyblion o addysg Gymraeg os caeir yr ysgol bentrefol leol yn real iawn yn siroedd Ceredigion, Caerfyrddin, Penfro, Powys (achos Carno yn arbennig), Dinbych, Conwy, a rhannau o Ynys Môn a Gwynedd. Mae Cymdeithas yr Iaith yn mynnu nad diffyg o ran yr iaith Gymraeg yn unig yw hwn, ond mae'n ddiffyg addysgol sylfaenol, gan fod meithrin y gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg yn sgil addysgol sylfaenol. Hyd yn oed pan aiff disgybl o ysgol bentrefol at Ysgol Ardal sydd hefyd yn ysgol Gymraeg, bydd yn dysgu'r iaith fel unigolyn ond yn ei chysylltu â'i brofiad addysgol yn unig. Yn ysgol ei bentref ei hun, gyda'i ffrindiau a'i frodyr/chwiorydd wrth law, bydd yn dechrau defnyddio'r iaith yn gyfrwng cyfathrebu cymdeithasol mwy naturiol.

Mae cau ysgol bentrefol Gymraeg yn aml yn tanseilio cymuned Gymraeg trwy ei hamddifadu o ffocws bywyd cymunedol trwy gyfrwng yr iaith yn y modd a ddisgrifiwyd yn Adran 1. Yn olaf, mae cynnal ysgol bentrefol Gymraeg yn rhoi llawer mwy o hwb i fewnfudwyr ddysgu'r iaith gan eu bod yn uniaethu gyda'r ysgol, ac felly mae pwysigrwydd i hyn hefyd mewn pentrefi cymunedol lle mae dirywiad sylweddol yng nghanran y siaradwyr Cymraeg. Credwn ei fod yn gwbl annerbyniol fod Llywodraeth y Cynulliad yn barod i gymryd rhyw ddwy frawddeg o esboniad gan AALl i fodloni'r canllaw eu bod wedi ystyried effaith cau ysgol ar yr iaith. Ni ddylid caniatáu cam a allai olygu amharu ar addysg plant a thanseilio cymuned Gymraeg heb fod astudiaeth broffesiynol o drylwyr.

Hyd yma dim ond Gwynedd sydd wedi cytuno i gomisiynu astudiaethau ardrawiad iaith o effaith cau ysgol. Mae siroedd eraill yn barod i fynnu fod Asesiadau o'r fath yn cael eu gwneud cyn bod rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau tai, ond nid ydynt yn mynnu'r un sylw proffesiynol i effaith cau ysgol. Mae canllaw presennol Llywodraeth y Cynulliad felly yn rhy gyfyngedig i

fod o werth mwy na bodloni'n docynistaidd. Dylid mynnu fod Awdurdod Lleol yn astudio effaith cynlluniau ad-drefnu ar yr iaith a chymunedau Cymraeg yn ogystal ag ar ddarpariaeth addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, a mynnu hefyd Asesiadau safonol yn hytrach na dwy frawddeg ystrydebol.

3) *Fod yn rhaid ystyried effaith cau ysgol ar gymuned leol* - Cyfeirir at y mater hwn nifer o weithiau yng nghylchlythyr 23/02. : (1.9)"Effaith y cynnig ar unrhyw ddefnydd y gwna'r gymuned o adeiladau'r ysgol" ac (1.11)"effaith cau'r ysgol ar y gymuned yn gyffredinol ac i ba raddau y mae'r ysgol yn gwasanaethu'r gymuned gyfan fel adnodd dysgu", ac yn (2.2) "yr effaith ar y gymuned leol" ac "a ystyriwyd gwneud mwy o ddefnydd o'r adeiladau presennol fel adnodd addysgol yn y gymuned" ac eto "effaith cau'r ysgol ar y gymuned". Yn bwysicaf oll mae adran (1.27) "Mewn rhai ardaloedd gall yr ysgol fod yn ganolbwynt i weithgarwch cymuned, a gallai ei chau, gael goblygiadau tu hwnt i'r mater o ddarparu addysg". Dyma'r neges a glywyd gan yr Awdurdodau Addysg Lleol Fel arfer, derbynnir rhyw ddwy frawddeg yn adroddiad AALl i'r perwyl "eu bod wedi ystyried yr effaith ar y gymuned ond y dylai ystyriaethau addysgol ddod yn flaenaf".

   Dyma adlewyrchu meddylfryd tic flwch ac astudiaeth eto na fyddai'n derbyn gradd "C" petai'n cael ei chyflwyno ar gyfer arholiad TGAU. Ni fu unrhyw astudiaeth o gwbl o effaith cau'r ysgol ar y gymuned leol mewn unrhyw un o'r 9 achos a fu gerbron y Gweinidog ac eto gwrthodwyd pob apel. Yn ddiweddar, aeth Ynys Môn un cam yn bellach trwy restru'n foel faint o ddigwyddiadau ffurfiol a gynhaliwyd yn yr ysgolion tan sylw. Mae'n amlwg fod angen cryfhau'r canllaw at Awdurdodau Lleol. Mae angen Asesiad trwyadl Ardrawiad Cymunedol o gau ysgol, a gallai'r Asesiad Ardrawiad Iaith fod yn rhan ohoni. Mae'r un effeithiau cymunedol i'w gweld hefyd yn yr ardaloedd llai Cymraeg eu hiaith. Unwaith yn rhagor, credwn y dylid mynnu fod Awdurdod Lleol yn gorfod sefydlu achos eithriadol dros gau ysgol os bydd yr ysgol honno o bwys canolog i gymuned leol. Bydd effeithiau cymunedol cau ysgolion, wrth gwrs, yn gymhleth ac yn amrywio o gymuned i gymuned. Maent yn haeddu Astudiaeth Effaith broffesiynol, neu fe ddylid diddymu'r rhagrith o osod y canllaw hwn ar Awdurdodau Addysg Lleol.

   Gwrthwynebwn yn llwyr hefyd yr ensyniad fod gwahaniaeth hanfodol rhwng anghenion addysgol ac anghenion cymunedol. I'r gwrthwyneb, credwn fod cefnogaeth gymunedol a theuluol yn ystyriaethau addysgol o'r radd flaenaf i blant oed Cyfnod Allweddol 1. Mae biwrocratiaid yn ei chael yn hawdd gwerthuso cyfraniad adeilad da ac adnoddau materol i addysg plentyn, ond yn wael iawn o ran gwerthuso cyfraniad cefnogaeth gymunedol a theuluol. Unwaith yn rhagor, mynnwn mai mater *addysgol* yw peryglu cefnogaeth gymunedol a theuluol i addysg y plant. Bydd hyn yn amrywio o gymuned i gymuned ac y mae angen Astudiaeth Effaith o safon - gyda chyfraniad amlwg y pentrefwyr eu hunain - ymhob achos.

4) Addysg Cyfnod Sylfaen - Mae Adran (1.18) o gylchlythyr 23/02 yn dweud y "dylai cynigion sy'n effeithio ar y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ystyried dymunoldeb integreiddio addysg cyn ysgol a gwasanaethau gofal plant.." Ers hynny wrth gwrs, daeth Strategaeth Cyfnod Sylfaen gyda honiad am bwysigrwydd allweddol y strategaeth i addysg plant. Dylai'r canllawiau newydd gydnabod y perygl o amddifadu plant 3-5 oed o ardaloedd gwledig o'r manteision allweddol hyn felly. Ni ellir cludo plant tan 5 oed ar fws ysgol ac felly, os caeir ysgol bentrefol, fe amddifedir y plant 3-5 oed o addysg Cyfnod Sylfaen oni bai fod gan eu rhieni'r moddion preifat i gludo eu plant at ysgol ganolog. Gan fod hefyd argaeledd addysg Cyfnod Sylfaen a gwasanaethau Gofal Plant yn sicr o fod yn ffactorau i'w ystyried gan rieni ifainc wrth ystyried ymhle i fyw ac i ba ysgol i anfon eu plant, dylid llunio cynlluniau holistaidd i'w sicrhau - yng nghanol ystod o wasanaethau cyhoeddus - oddi fewn i ysgolion pentrefol.

5) *Fod yn rhaid archwilio pob alternatif yn drwyadl cyn argymell cau ysgol* - Mae Adran (2.2) o gylchlythyr 23/02 yn cynnwys y paragraff canlynol: "Ystyried Dulliau eraill A ystyriwyd posibiliadau eraill heblaw cau'r ysgol, yn enwedig edrych ar ffederasiwn, clystyru neu gydweithio ag ysgolion eraill (gan ystyried y sgôp i ddefnyddio cysylltiadau TGCh rhwng yr ysgolion) a'r rhesymau am beidio a dilyn y rhain fel dewis arall i gau ysgol. A ystyriwyd y posibiliadau o wneud mwy o ddefnydd o'r adeiladau presennol fel adnodd addysgol yn y gymuned?" Nid ystyriwyd hyd yn oed yr ail awgrym (astudiaeth dichonoldeb o wneud defnydd o'r ysgolion fel adnoddau dysgu cymunedol) mewn unrhyw un o'r 9 cynnig i gau ysgolion a fu gerbron y Gweinidog, ond fe ganiatawyd i'r Awdurdodau Lleol anwybyddu'r cyfrifoldeb.

Hyd yma, fodd bynnag, mae'r cynigion alternatif i gau ysgol fel arfer wedi ymdroi o gwmpas hybu cydweithrediad rhwng ysgolion hyd at greu ysgol ffedereiddedig neu aml-safle. Cyflwynir yr alternatif hwn fel modd o gynnal safle addysgol ymhob cymuned bentrefol ac eto ennill manteision profiadau addysgol a chymdeithasol ehangach i'r disgyblion trwy gronni adnoddau materol ac athrawon a dod â phlant at ei gilydd ar gyfer gweithgareddau. Cam-gyflwynir ffederasiwn gan nifer o swyddogion llywodraeth ganolog a lleol fel system sy'n ddibynnol ar amodau arbennig. Y gwirionedd yw bod ffederasiwn yn gysyniad hyblyg iawn ; gall fod gymaint o wahanol fodelau ag sydd o ffederasiynau. Gall fod ffederasiwn lle bo disgyblion yn symud rhwng safleoedd yn achlysurol neu lle bo athrawon yn symud. Gellir canoli datblygiadau cyfalaf ar un safle neu gallai pob safle arbenigo ar agwedd arbennig. Gall fod cyfuniad o safleoedd gweddol gyfartal eu maint neu un safle canolog gyda safleoedd lloeren. Gellir cael clwstwr strwythuredig o ysgolion annibynnol neu ysgol ffedereiddedig aml-safle. Cefnogwn y bwriad i ychwanegu yn y canllawiau newydd yr holl ystod o opsiynau.

Dibynna'r union fodel ar faintioli cymharol y gwahanol safleoedd, y pellter rhyngddynt, y cyfleusterau penodol ac yn y blaen. Mae popeth yn bosibl ac y mae angen archwiliad manwl ym mhob achos o alternatif hyfyw i gau ysgol fel y mynna canllaw Llywodraeth y Cynulliad. Nid oes unrhyw Awdurdod Lleol wedi cyflawni'i gyfrifoldeb wrth archwilio'r holl ddulliau eraill heblaw am gau ysgol. I'r mwyafrif o swyddogion, y mae'r rhain yn syniadau cymharol ddieithr, ac nid ydynt yn deall yr union sefyllfa gyfreithiol na maint eu cyfrifoldeb o ran archwilio modelau gwahanol heblaw am gau ysgol - sydd bob amser yr ateb hawsaf yn fiwrocrataidd.

Ym 2001, camarweiniodd Awdurdod Addysg Caerfyrddin bentrefwyr Llanfihangel-Ar-Arth trwy ddatgan nad oedd modd creu ffederasiwn rhwng yr ysgol eglwysig honno ac ysgol gymunedol Pencader. Mewn gwirionedd, golygai creu ffederasiwn gau'r ddwy ysgol ac agor un ysgol aml-safle newydd, a mater i'w benderfynu wedyn fyddai statws eglwysig neu gymunedol i'r ysgol aml-safle newydd. Trwy'r camgymeriad, amddifadwyd llywodraethwyr o un opsiwn heblaw am gau i'w archwilio. Ymateb braidd yn ffwrdd-â-hi'r Gweinidog Addysg wrth benderfynu ar apel oedd bod y camgymeriad yn anffodus ond yn annhebyg o fod wedi newid y penderfyniad yn y pendraw. Yn gynharach eleni, peidiodd Awdurdod Addysg Môn a deall ei gyfrifoldeb (gw. atodiad A _ Gwrthwynebiad i Rybudd i gau Ysgol Llanddeusant) i archwilio dulliau eraill heblaw am gau ysgolion. Rhestrodd ddiffiniad ESTYN o wahanol fodelau addysgol a chredodd ei fod wedi archwilio opsiynau ar gyfer ysgolion Llanddeusant ac Aberffraw trwy gyfeirio'n ôl at y modelau cyffredinol hyn. Fodd bynnag, ystyr amlwg y canllawiau yw bod yn rhaid dehongli pob alternatif yng nghyd-destun yr ysgol unigryw tan sylw yn hytrach na dibynnu ar ymarferiad "torri a gludo". Golyga hyn lawer o waith i swyddogion, ond mae'n gwbl briodol fod y canllawiau newydd yn pwysleisio nad ar chwarae bach y mae amddifadu cymuned o'u hysgol a thorri ar draws addysg y plant.

Yn Atodiad B ac C (sef ein hymateb i Gynlluniau Ad-drefnu Ysgolion Gwynedd), mae Cymdeithas yr Iaith yn esbonio fod awduron y Cynllun gwreiddiol eto wedi camddeall eu cyfrifoldebau i wneud astudiaethau llawn o'r holl ddulliau eraill a'r effaith ar y cymunedau lleol o gau ysgolion trwy osod amserlen o ymgynghori'n statudol mewn dros 30 ysgol o fewn 9 wythnos, sef 1.5 diwrnod o ystyriaeth i dynged pob ysgol ! Yn ôl y cynllun diwygiedig, roedd bwriad i ymgynghori ar ddyfodol 7 ysgol o fewn 4 wythnos olaf tymor yr haf. Rhaid bod y canllawiau newydd yn terfynu am byth y posibiliad o "gau torfol" heb roi ystyriaeth ddyladwy i bob achos unigol. Cafodd y canllaw hwn - ystyried pob dull arall - ei anwybyddu'n gyson gan Awdurdod Addysg Caerfyrddin yn ei hymdrech i wthio trwodd polisi torfol o gau ysgolion pentrefol. Fel mater o ddogma, maent am weld cau ysgolion a sefydlu Ysgolion Ardal canolog ac yn peidio a rhoi ystyriaeth ddifrifol i alternatif ffedereiddio na chydweithio rhwng ysgolion. Maent yn dangos y dirmyg mwyaf tuag at y canllaw trwy ddull "torri a gludo" gan osod union yr un paragraff o wrthwynebiad i ffedereiddio ym mhob achos ac felly'n peidio a gwneud unrhyw ymdrech i wneud astudiaeth ddifrifol o'r dewisiadau amgen yn yr holl achosion unigol.

Wrth wrthwynebu alternatif ffederasiwn yn achos Ysgol Mynyddcerrig ( Ionawr 9fed 2007 ) dywedodd yr Awdurdod:

> "*This included the option of federation. The Authority was however also mindful of the need for the document to encourage and engage stakeholders in a genuine process of dialogue and debate. Accordingly it sought to assist stakeholders by identifying as many options as possible as well as giving them some idea of the issues any alternative options forward would need to address. Officers also met with Governors, Staff and Parents to discuss the document and the implications of the proposal. Furthermore the usual consultation period was extended by a period of one month, at the request of the Governing Body.*
>
> *Whilst therefore the LEA was prepared to consider any alternative option put forward by stakeholders there would need to be a credible basis for determining whether or not such a proposal could be realistically implemented. In making a case for federation then clearly having a willing partner would make such a proposal much more worthy of consideration. The advice given was therefore an attempt to assist stakeholders in putting forward a case.*
>
> *With regard to the advice given by Welsh Assembly Government (WAG) officials relating to the "leading" role that the LEA should provide in any discussion regarding federation then this would have been the case where the LEA had identified federation as a preferred option. In such a case then the Authority would indeed play a leading role in discussion relating to federation even if all, or indeed any, of the schools involved were not willing partners.*
>
> *In this instance federation was not considered to be the preferred option by the LEA and no credible alternative option was provided."*

Chwe mis yn ddiweddarach, rhoddodd yr un Awdurdod ei asesiad o paham nad oeddent yn credu fod ffederasiwn yn opsiwn hyfyw wrth ofyn i'r Bwrdd Gweithredol gau Ysgol Llansadwrn (23/7/07):

> *"This included the option of federation. The Authority was however also mindful of the need for the document to encourage and engage stakeholders in a genuine process of dialogue and debate. Accordingly it sought to assist stakeholders by identifying as many options as possible as well as giving them some idea of the issues any alternative options forward would need to address. Officers also met with Governors, Staff and Parents to discuss the document and the implications of the proposal. Furthermore the usual consultation period was extended by a period of one month, at the request of the Governing Body.*
>
> *Whilst therefore the LEA was prepared to consider any alternative option put forward by stakeholders there would need to be a credible basis for determining whether or not such a proposal could be realistically implemented. In making a case for federation then clearly having a willing partner would make such a proposal much more worthy of consideration. The advice given was therefore an attempt to assist stakeholders in putting forward a case.*

*With regard to the advice given by Welsh Assembly Government (WAG) officials relating to the "leading" role that the LEA should provide in any discussion regarding federation then this would have been the case where the LEA had identified federation as a preferred option. In such a case then the Authority would indeed play a leading role in discussion relating to federation even if all, or indeed any, of the schools involved were not willing partners.*

*In this instance federation was not considered to be the preferred option by the LEA and no credible alternative option was provided."*

Fel y gwelir, y mae union yr un geiriad, yn cynnwys y "cynnig hael" safonol o fis ychwanegol ar gyfer ymgynghori. Does dim ymdrech at wneud asesiad arbennig o'r dewisiadau amgen yng nghyd-destun yr ysgol tan fygythiad; yn hytrach, defnyddir paragraffau safonol "torri a gludo". Mae hyn yn gwawdio canllaw Llywodraeth y Cynulliad eu bod i fod i archwilio pob opsiwn arall. Mae'r ffaith fod Llywodraeth y Cynulliad yn caniatáu iddynt yn ymarferol anwybyddu'r canllaw mewn modd mor ddirmygus yn danfon arwydd at Awdurdodau Lleol nad yw'r canllawiau i'w cymryd o ddifri. Mae'n wir fod Llywodraeth y Cynulliad wedi cywiro Awdurdod Addysg Caerfyrddin ar sawl pwynt arbennig o ran camarwain llywodraethwyr ynghylch mecanwaith creu ysgol ffedereiddedig fel alternatif i gau ysgol e.e.1- beirniadwyd yr Awdurdod am roi cam-gyfarwyddyd na allai ysgolion "eglwysig" ac ysgolion "sirol" ystyried creu ysgol ffedereiddiedig (mewn gwirionedd, buasai'r ysgolion wedi cau ac ail-agor fel ysgol ffedereiddiedig a mater i'r llywodraethwyr fuasai penderfynu ar statws yr ysgol ffedereiddiedig newydd);e.e.2-beirniadwyd yr Awdurdod am roi camgyfarwyddyd fod yn rhaid i ysgolion gael hyd i bartneriaid bodlon (mewn gwirionedd, swyddogaeth yr Awdurdod yw archwilio'r posibiliadau). Ond y mae "Catch-22".

Nid oes raid i'r Awdurdodau Addysg Lleol wneud archwiliad trwyadl o opsiwn fel ffedereiddio os ydyw'n amau o'r cychwyn na fydd yn ateb y "problemau". Mae Awdurdod Addysg Caerfyrddin yn dehongli hyn fel nad oes raid archwilio opsiwn ffederasiwn os nad hwnnw yw eu "hoff opsiwn", a dyw e byth yn hoff opsiwn ganddynt mewn unrhyw achos ac felly nid oes byth raid iddynt ei archwilio yn drwyadl. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn eu herio ar hyn, ac felly maent yn caniatáu i'r AALl wneud nonsens o'r canllaw. Mae'n amlwg fod ffedereiddio yn opsiwn i ddatrys problemau tybiedig ynghylch adnoddau i gyflwyno cwricwlwm eang, problemau tybiedig o ran cyfleoedd cyfathrebu cymdeithasol i'r plant, ac yn fodd i gwtogi ar gostau cyfredol (trwy gael un prifathro, peidio a dyblygu adnoddau ayb). O ddiffiniad, fodd bynnag, ni all ysgol aml-safle gael gwared ar gost cyfalaf adeiladau gan mai ei holl ddiben yw cynnal y safleoedd hyn. Gan mai'r hyn sy'n gyrru MEP Caerfyrddin yw codi incwm trwy werthu adeiladau a safleoedd, ni all ffederasiwn felly fyth fod yn ateb i'r angen sylfaenol hwn, ac nid oes fyth reidrwydd arnynt (yn eu tyb nhw) i astudio'r opsiwn yn iawn, ac felly y mae'r canllaw o ran gorfod archwilio dewisiadau eraill i gau yn ddiwerth.

Anghywir iawn yw bod Llywodraeth y Cynulliad yn caniatáu i'r AALl drin canllaw o'r fath gyda dirmyg. Dyma ddwyn anfri ar gylchlythyrau Llywodraeth y Cynulliad. Yn bwysicach fyth, y mae hyn yn dwyn anfri ar brosesau ymgynghori democrataidd. Erbyn hyn, y mae rhieni a llywodraethwyr yn deall fod Awdurdod Addysg Caerfyrddin yn benderfynol o werthu ysgolion pentrefol a bod y broses ymgynghori yn ymarferiad tocynistaidd nad sydd byth yn newid unrhyw beth ac nad oes fyth archwiliad ystyrlon o unrhyw alternatif i gau nac astudiaeth o effaith cau. Mae hyn yn gelyniaethu rhieni a llywodraethwyr o'r broses addysg a democratiaeth leol. Ar yr union adeg pryd y dylid llawenhau fod rhieni ac eraill yn dangos consyrn am addysg eu plant a'u hysgolion, caniateir i AALl gynllwynio yn eu herbyn yn lle gweithio gyda nhw. Mae canllawiau Llywodraeth y Cynulliad wedi mynd yn hollol ddiystyr a chyfrifoldeb brys Llywodraeth y Cynulliad yw unioni'r sefyllfa. O ganlyniad, mae rhieni a llywodraethwyr yn yr ardaloedd pentrefol wedi colli pob ymddiried yn yr awdurdodau addysgol a phrosesau democrataidd ac wedi dadrithio.

Mae pawb yn gwybod cyn cychwyn proses ymgynghori beth fydd ei diwedd, ac y mae AALl yn gweld trechu rhieni a llywodraethwyr a llwyddo i wthio trwodd eu polisïau yn fuddugoliaeth. Mae'r fformiwla mor llwyddiannus nes bod bellach dempled ar gael ar gyfer mynd trwy'r "motions".Mae'r sefyllfa hon yn wael nid yn unig o ran cyfranogiad mewn democratiaeth; mae hefyd yn wael yn addysgol gan fod cefnogaeth frwd rhieni a llywodraethwyr gwirfoddol yn hollbwysig i lwyddiant addysg. Mae gwir angen gweddnewid y modd cyfredol o ddehongli canllawiau Llywodraeth y Cynulliad, ac angen gosod methodoleg glir yn y canllawiau newydd o ran yr hyn a ddisgwylir gan AALl'au wrth asesu opsiynau addysgol ac effeithiau cymunedol eu hargymhellion. Mae cylchlythyr 23/02 yn honni y bydd y Gweinidog, wrth ddyfarnu ar apeliadau, yn ystyried (2.2) "a ddilynwyd gweithdrefnau ymgynghori a chyhoeddi statudol". Nid oes tystiolaeth i unrhyw ystyriaeth o'r fath, a dehongliad amlwg rhai Awdurdodau Lleol yw nad oes raid cymryd gormod o sylw o'r canllawiau, gan fod y Llywodraeth yn gosod ystyriaethau ariannol lawer yn uwch na rhai addysgol na chymunedol.

## b) RHEOLAETH LLYWODRAETH Y CYNULLIAD AR GYLLID GWELLIANNAU ADEILAD

Mae Awdurdodau Addysg Lleol yn honni eu bod yn ymateb i bwysau gan Lywodraeth y Cynulliad wrth iddynt lunio cynlluniau rhesymoli negyddol i gau llawer o ysgolion pentrefol - fel y dengys yr enghraifft flaenorol o Ynys Môn.

1. Mae ffigurau Llywodraeth y Cynulliad yn dangos y gallai fod hyd at 113,300 o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd erbyn y flwyddyn 2010. Yr ydym yn credu fod bygythiad i tua 200 o ysgolion pentrefol Cymraeg sydd, ar gyfartaledd, gyda thua 50 o ddisgyblion yr un (h.y. Ysgolion yn amrywio o lai na 20 disgybl i dros 70). Pe caeid y cyfan o'r ysgolion hyn, byddid yn arbed felly tua 10,000 o leoedd mewn ysgolion ( a chymryd fod modd, weithiau'n gostus, o'u gosod mewn mannau eraill ). Dyna 10,000 o leoedd allan o gyfanswm o 113,300. Mewn geiriau eraill, pe caeid 200 o ysgolion pentrefol Cymraeg eu cyfrwng gan danseilio'r holl gymunedau hyn sydd naill ai'n bennaf Gymraeg neu gyda photensial i fod felly, byddai 92% o broblem lleoedd dros ben yn aros. Fe gyfeiriwn yn yr adran nesaf at ein hateb amgen ni - sef cymryd llawer o'r lleoedd hyn allan o gomisiwn tu fewn i adeiladau'r ysgolion trwy ddefnyddio rhai o'r stafelloedd at ddibenion cymunedol ehangach.

2. Ar y 15fed o Fawrth 2007, danfonodd y Gweinidog Addysg gylchlythyr at AALlau yn eu rhybuddio y bydd y Gronfa Gwelliannau Adeiladau Ysgolion (SBIG) ar ei newydd wedd o 2010 ymlaen yn ffafrio Awdurdodau sy'n profi eu bod yn effeithiol o ran rheoli asedau. Derbyniwn mai cymhelliad gweinyddol syml oedd i'r cylchlythyr hwn yn hytrach nag ymgais anuniongyrchol i ddylanwadu ar bolisïau lleol. Ond y mae modd i Awdurdodau Lleol ddehongli'r cylchlythyr i olygu na roddir cyllid ar gyfer gwelliannau adeilad iddynt oni bai fod ganddynt gynlluniau mewn llaw ar gyfer rhesymoli negyddol neu gau ysgolion e.e. mae swyddogion addysg Cyngor Sir Caerfyrddin yn dyfynnu'r cylchlythyr yn helaeth yn eu hadroddiad i'r Bwrdd Gweithredol (Ebrill 2007) ar y MEP (Strategaeth Moderneiddio Darpariaeth Addysg) a gynhwysai'r bwriad i gau dwsinau o ysgolion pentrefol Cymraeg. Cyfeirir yn gyson at alwad Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau fod adeiladau ysgolion yn cyrraedd safon arbennig yn rheswm dros gau'r ysgolion gan nad oes cyllid tuag at eu gwella.

3. Mae modd i Awdurdodau Lleol ddilyn arweiniad tybiedig Llywodraeth y Cynulliad. Bu Awdurdod Addysg Caerfyrddin yn y broses o greu fformiwla newydd i gyllido ysgolion. Yr oedd y fformiwla newydd yn tynnu'r "lwfans" a fu ar gyfer ysgolion bach a ffedereiddedig ac yn golygu fod ysgolion Cymraeg eu cyfrwng yn colli cyfanswm o £460,040 y flwyddyn. Byddai 50 o ysgolion pentrefol Cymraeg ar eu colled, a dim ond 13 ar eu hennill. Gwelwn unwaith yn

rhagor fod y swyddogion addysg yn honni eu bod yn dilyn arweiniad gan Lywodraeth y Cynulliad o fformiwla gyllidol newydd i ymosod ar ysgolion pentrefol Cymraeg. Dywed y swyddogion yn y ddogfen ymgynghorol wrth gynnig y fformiwla newydd " Roedd yr adolygiad yn Sir Gaerfyrddin yn rhag disgwyl y cyfarwyddyd gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes y dylai pob Cyngor ystyried adolygu eu fformiwlâu ar gyfer ariannu ysgolion."

**c) RHEOLIADAU GAN LYWODRAETH Y CYNULLIAD SY'N ANADDAS AR GYFER YSGOLION PENTREFOL.**

Yn anfwriadol efallai, y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi creu rheoliadau ar gyfer hyfforddi prifathrawon sy'n milwrio yn erbyn buddiannau ysgolion bychain a phentrefol gan ei gwneud hi'n anoddach fyth sicrhau penodiadau i swyddi penaethiaid. Erbyn hyn, rhaid bod ymgeiswyr ar gyfer cyrsiau Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) yn bodloni meini prawf sydd wedi ei anelu yn fwy at athrawon sydd yn addysgwyr mewn ysgolion mawr.

Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystwytho'r meini prawf hyn er mwyn caniatáu i Awdurdodau Addysg Lleol annog ymgeiswyr y maen nhw'n credu eu bod yn addas ar gyfer eu hanghenion addysgol, daearyddol a chymunedol.

Mae'r meini prawf a rôl Pennaeth yn sylweddol wahanol mewn ysgol fach i'r hyn fyddai mewn ysgol fawr ond nid yw'r cyrsiau CPCP yn adlewyrchu hyn. Hefyd, mae ymgeiswyr addas yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i fynychu cyrsiau hyfforddi oherwydd cyfyngiadau amser a lleoliad. Mae'n rhaid i'r Llywodraeth fabwysiadu modd hyblyg o gael mynediad at gyrsiau hyfforddi penaethiaid neu bydd y trefniant yn cael ei weld fel ymdrech lechwraidd i gau ysgolion pentrefol. Mae tystiolaeth glir i ddangos nad yw ymgeiswyr sy'n llwyddiannus ar y cwrs CPCP yn hyderus i ymgeisio am swyddi penaethiaid gydag Awdurdodau Addysg Lleol Gymru ben baladr yn cael trafferth i benodi penaethiaid. Mae yma her i'r Cynulliad ailwampio trefniadaeth hyfforddi penaethiaid er mwyn mynd i'r afael a pharatoi athrawon i ymgymryd â rôl arweiniol yn ein hysgolion bychain.

## III. SUT FELLY MAE SYMUD TUAG AT DREFN GYNALIADWY AR GYFER YSGOLION PENTREFOL?

**a) CREU UNEDAU ADDYSG HYFYW** - Yr ydym eisoes wedi trafod yr anghenion yma yn flaenorol. Rhaid ystyried yng nghyd-destun pob ysgol unigol a phob cylch o ysgolion sut i greu uned addysgol hyfyw a chynaliadwy sy'n cynnig addysg a chyfleoedd cyflawn mewn adeiladau addas ac sydd wedi'i lleoli oddi fewn i union gymuned y disgyblion gan feithrin cyfranogiad brwd gan rieni a'r gymuned leol. Gwaith Adran Addysg y Cynulliad yw diffinio'r ystod o opsiynau sy'n agored gan annog Awdurdodau Lleol i drafod gyda rhieni, staff, llywodraethwyr a chymunedau lleol pa rai o'r opsiynau sydd fwyaf addas ar gyfer yr amgylchiadau lleol. Dylid cyfarwyddo AALl'au fod angen sefydlu rhesymau arbennig dros fynd yn groes i ddymuniadau lleol ac achos eithriadol iawn dros gau ysgol sy'n llwyddo'n academaidd ac yn bwysig gan y gymuned leol. Rhaid cael gwared ar y syniad anaeddfed fod dewis syml rhwng cau ysgol neu gynnal y drefn fel y mae. Rhaid hefyd cael gwared ar yr ystrydeb nad yw'r status quo yn opsiwn. Mewn nifer o ysgolion, bydd y drefn bresennol (efallai gyda mân ddiwygiadau a buddsoddiad) yn ateb cynaliadwy iawn. Mewn mannau eraill, yr opsiwn gorau fydd cynnal y sefydliadau presennol ond ychwanegu at eu swyddogaethau cymunedol (gw. adran nesaf). Mewn mannau eraill, bydd rhyw fodel ar ffederasiwn ffurfiol yn addas. Mae llawer o rieni'n ofni ffederasiynau ar hyn o bryd gan nad oes raid mynd trwy unrhyw broses statudol i gau safle ffederasiwn. Rhagwelir y gellid trosglwyddo'r gorchwyl annifyr hon i lywodraethwyr trwy wasgu ar gyllideb ysgol ac y gallai ffederasiwn fod yn gam hanner ffordd at gau ysgol. Cefnogwn felly'r ymdrechion i ddyfeisio dulliau newydd o gydweithio strwythuredig rhwng ysgolion er mwyn sicrhau cynnydd mewn cyfleoedd ac arbedion ariannol, tra ar yr un pryd yn cadw elfen gref o annibyniaeth a sicrwydd statudol. Bydd gwahanol atebion yn gweddu i wahanol sefyllfaoedd, ac mae'n bwysig sicrhau fod AALl'au'n arwain astudiaeth gynhwysfawr o'r opsiynau a bod pob ymdrech i sicrhau fod rhieni, llywodraethwyr a chymunedau lleol yn teimlo perchnogaeth ar unrhyw gyfundrefnau newydd.

### b) CREU ADNODDAU PENTREFOL CYMUNEDOL Y MAE CYFLWYNO ADDYSG GYNRADD YN RHAN O'U SWYDDOGAETH

Dyma lle y gofynnwn am ymagwedd cwbl newydd, a chyfeiriwn y sylwadau hyn at y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn ogystal ag at y Gweinidog addysg. Ar hyn o bryd ystyriaethau ynghylch adeiladau, yn hytrach nag ystyriaethau addysgol, sy'n rheoli dyfodol polisi ysgolion. Credir na ellir cyfiawnhau arian o'r gyllideb addysg statudol i wella adeiladau ysgolion pentrefol Cymraeg. Yn y bôn, dyna ddiwedd y stori o dan y drefn bresennol. Er y gall fod yr ysgolion yn cyflwyno addysg dda a bod dulliau cadarnhaol (trwy gydweithio) o wella'r ddarpariaeth, er eu bod yn cynnig cefnogaeth nodedig gan deuluoedd a'r gymuned, ac er bod eu cau yn ergyd enbyd i'r iaith a chymunedau Cymraeg, yn aml nid oes unrhyw ystyriaeth ddifrifol o unrhyw lwybr heblaw am gau ysgolion. Ni fu, ac ni fydd byth unrhyw ateb yn cael ei gynnig mewn unrhyw achos gan Gyngor Sir Caerfyrddin heblaw am gau ysgolion a chreu Ysgolion Ardal canolog sydd wedyn yn eu galluogi i gael derbyniadau cyfalaf trwy werthu adeiladau ysgolion. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ceisio macsimeiddio'i incwm trwy roi iddo'i hunan ganiatâd cynllunio i ddymchwel adeilad Ysgol Mynyddcerrig gyda chaniatâd am nifer o dai - er bod datblygiadau eraill yn y pentref. Mynd trwy'r "motions" yw pob ymgynghori ac y mae hyn wedi gosod cynsail ar gyfer siroedd eraill. Mae Cynghorau mewn siroedd fel Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy oll wedi cyfeirio at yr hyn sy'n digwydd "mewn mannau eraill" o Gymru. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ceisio cyflymu'r broses bellach trwy ddiwygio fformiwla cyllido ysgolion fel ag i newynu ysgolion bychain o gyllid, ac y mae hefyd wedi newid ei reolau o ran cynnig adeiladau ysgol "redundant" (eu disgrifiad dilornus o adeiladau ysgolion wedi'u cau sy'n gydnaws â'u hagwedd at y cymunedau pentrefol eu hunain). Erbyn hyn, nid oes gan gymuned leol ond 1 flwyddyn yn hytrach na thair i greu cynllun busnes i roi'r adeilad ar waith at ddibenion cymunedol a rhaid sefydlu "amgylchiadau eithriadol".

Yn ei hanfod daeth yn ddadl am ystadau (real estate) yn hytrach nag am addysg nac am gymunedau nac unrhyw ymgais onest i ganfod trwy ymgynghori unrhyw atebion eraill.

Yn yr adran hon, yr ydym yn cynnig dull gwahanol o drin problem cynnal adeiladau ysgolion pentrefol. Os llwyddir i dynnu problem yr adeiladau o'r hafaliad, yna fe ellir dychwelyd prosesau ymgynghori am ddyfodol ysgolion i briod feysydd addysgol a chymunedol. Os bernir ar griteria addysgol a chymunedol fe fydd yn sicr ystod eang o wahanol atebion cadarnhaol yn gweddu orau i wahanol gymunedau. Mewn cymunedau eraill, gall fod yn ddewis gan rieni fod y patrwm cyfredol o addysg wedi dirwyn i ben a bod ysgolion yn cau. Ond fe allai pob opsiwn fod yn opsiwn dilys, a thrafod diffuant ar sail addysgol a chymunedol a pharch at farn rhieni a llywodraethwyr. Mae hyn yn dra gwahanol i'r drefn bresennol o benderfynu ar ddyfodol ysgolion trwy ystyriaethau "real estate" a gorfodi'r un ateb ar bob cymuned. Sut felly y gellir trin pwnc cynnal yr adeiladau?

Mae'r Cyn Weinidog Addysg, Carwyn Jones, wedi cyfeirio at yr ateb trwy ddweud y gallai defnydd cymunedol o adeiladau ac adnoddau ysgolion fod yn waredigaeth i rai. Ond, er bod talu gwrogaeth i strategaethau cydlynol, y gwirionedd yw bod gweinyddu a chyllido yn cael ei drefnu'n adrannol mewn llywodraeth ganolog a lleol, a bod hyn yn milwrio yn erbyn ymagwedd holistaidd tuag at ddefnydd ysgolion pentrefol. Pan gaewyd Ysgol Llanfihangel-Ar-Arth gan Adran Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin, daeth swyddogion Adran Adfywio'r Cyngor Sir i drafod grantiau i droi'r ysgol yn ganolfan gymunedol h.y. i adfywio'r hyn a ddistrywiwyd gan yr adran arall! Pan holwyd paham na chynigwyd grantiau o'r fath tra roedd yr ysgol ar agor, ac mai hanfod y rheswm dros ei chau oedd anhawster cynnal yr adeilad, dywedwyd mai grantiau gwahanol oedd y rhain ar gyfer canolfannau cymunedol, nid ar gyfer ysgolion ! Mae ymagwedd adrannol yr awdurdodau a rheolau cyllidol yn gwrthweithio rhesymoli cadarnhaol - sef fod adeilad yn debycach o fod yn hyfyw o'i ddefnyddio at ddiben addysg statudol ac at ddibenion eraill gan rannu'r gorbenion rhwng yr adrannau/ awdurdodau.

Mae Llywodraeth y Cynulliad a Chynghorau Lleol wedi cyffwrdd a'r ateb trwy gyfeirio at "Ysgolion Cymunedol" neu "Community-focused Schools". Ond diwygiad cyfyngedig yw hwn o drefnu gweithgareddau cymunedol ymylol mewn sefydliadau sydd yn eu hanfod yn ysgolion.

Mae Cymdeithas yr Iaith yn galw am newid llawer mwy radicalaidd a allai ddiogelu llawer o ysgolion pentrefol Cymraeg a rhoi hwb addysgol iddynt hefyd. Galwn am greu trefn lle gellid cydnabod nifer o ysgolion pentrefol presennol, nid fel ysgolion y gall fod rhyw ddefnydd cymunedol ohonynt ond, fel asedau cymunedol allweddol y mae cyflwyniad addysg gynradd statudol yn rhan yn unig o'u swyddogaeth. Nid datganiad gwag fuasai hwn. Ein galwad yw cefnogi a gwireddu'r alwad trwy strwythur rheoli a chyllido cwbl newydd.

Dyma fuasai'r drefn newydd:

- Proses o fedru adnabod a chlustnodi *adeiladau* ysgolion pentrefol yn Asedau Cymunedol Allweddol (ACA). Byddai angen trafod mecanwaith y broses glustnodi hon. Ni fyddai'n addas ym mhob man. Byddai'n un o'r opsiynau wrth drafod dyfodol ysgolion, a byddai angen gwneud cais i'r Gweinidog am glustnodi'r adeilad yn ACA
- Trosglwyddo rheolaeth adeiladau'r ACAu i ffwrdd o Adrannau Addysg i adran fel Adfywio yng nghyd-destun Llywodraeth Leol neu Adran fel Materion Gwledig yng nghyd-destun Llywodraeth y Cynulliad. Byddai angen cronfa at ddiben pwrcasu'r adeiladau penodedig oddi wrth yr Awdurdodau Lleol (neu eglwysi) a'u cynnal. Mae eisoes cronfa flynyddol datblygu ysgolion gwledig - sy'n cael ei dosbarthu'n awtomatig i AALl'au ac yn cael ei llyncu i'w cyllidebau addysg cyffredinol. Byddai cynyddu'r gronfa hon i tua £5m

p.a. yn ddigon i brynu tua 70 o'r ysgolion a'u graddol uwchraddio yn ystod y ddegawd nesaf.

- Byddai Adran Materion Gwledig Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi canllawiau ar sut i ddatblygu'r ACAu i Gynghorau Sir ac yn rheoli cyllideb gwelliannau adeilad
- Byddai Adrannau Adfywio (neu debyg) Cynghorau Sir yn gwneud archwiliad ariannol o'r holl wasanaethau gan y Cynghorau Sir ac asiantaethau Cyhoeddus a gwirfoddol yn yr ardaloedd gwledig ac astudio sut y gellid eu cyflwyno'n well gan ddefnyddio gofod sbâr adeiladau ac adnoddau'r ysgolion pentrefol, yn ystod y dydd ynghyd a defnydd yr holl gyfleustra tu allan i oriau ysgol. Byddai hyn yn cynnwys lleoli rhai swyddi gan y Cyngor (Swyddogion Ardal) a swyddi asiantaethau fel Mentrau Iaith tu fewn i ysgolion lle bo hynny'n addas - gan barchu wrth gwrs rheoliadau ynghylch diogelwch plant.
- Byddai gan Adran Addysg gytundeb gyda'r Adran Adfywio, rywbeth yn debyg i gytundeb y BBC gyda S4C. Byddai'r Adran Addysg yn trefnu'r ysgol gynradd tu fewn i'r ACA ac yn talu holl gostau cyfredol yr addysg statudol. Ar ben hynny, byddai'r Adran Addysg yn talu lwfans rhesymol tuag at gostau cynnal a chadw'r adeilad. Gallai Adran Addysg wrth gwrs gynnal ysgol gynradd aml-safle trwy ddefnyddio cyfleusterau sawl ACA
- Byddai'r Adran Adfywio yn adolygu sefyllfa bob ACA unigol gan adnabod pa ofod (capacity) dros ben sydd. Mewn rhai ACAu, bydd cynnal yr Ysgol Gynradd yn golygu nad oes unrhyw ofod dros ben yn ystod y dydd/tymor, a byddai'r Adran Adfywio yn gosod cytundebau gyda chyrff eraill (neu'n rhentu stafell) yn unig gyda'r hwyr/gwyliau. Mewn ACAu eraill, gellid cynnal yr ysgol gynradd mewn rhan o'r adeilad yn unig gan ryddhau gofod (gan gael gwared dros nos a lleoedd dros ben) ar gyfer cytundebau gydag adrannau eraill o'r cyngor, asiantaethau cyhoeddus eraill neu sefydliadau addysgol eraill ar gyfer y rhannau eraill o'r adeilad yn ystod y dydd. Byddai'r tenantiaid hyn hefyd yn cyfrannu at y costau cynnal a chadw'r adeilad, gwresogi etc. Byddai hefyd arbedion yn y cyfri cyfredol trwy fod gwahanol gyrff yn rhannu adnoddau gweinyddol. Nid ydym yn honni y byddai gweinyddu ar y cyd o'r fath yn gwneud yn iawn am holl gost "ychwanegol" cynnal yr ysgolion. Ond cymedrol iawn fyddai'r gost "ychwanegol" i'r cyllid cyhoeddus. Byddai ffigur ar gyfartaledd o tua £50,000 y flwyddyn yn gost datblygu gymunedol rhesymol iawn o ran hybu ac adfer nifer o'n cymunedau gwledig ac yn llawer gwell defnydd o arian cyhoeddus na nifer o'r cynlluniau byrhoedlog presennol. Yn bwysicaf oll, ni fyddai'r arian "ychwanegol" hwn yn dod o'r gyllideb addysg statudol ac felly ni fyddid yn honni fod adferiad y cymunedau gwledig ar draul amddifadedd mewn ardaloedd trefol.
- Byddai Adran Materion Gwledig Llywodraeth y Cynulliad yn ymchwilio ar frys i ddarganfod dulliau o ddefnyddio cyllid Ewropeaidd i hybu mentr adfywio arloesol o'r fath, ac y byddai'r adeiladau wedyn yn agored i ddenu'r fath ar grantiau datblygu cymunedol nad sy'n agored i'w defnyddio mor rhwydd gan ysgolion. Y costau cyfalaf hyn - yn hytrach na'r costau cyfredol ychwanegol a ddyfynnir yn aml gan AALl'au - yw'r gwir reswm dros geisio cau ysgolion. Gall hon fod yn ffordd o drin y broblem gyfalaf hon mewn nifer o achosion yn gadarnhaol trwy sefydlu posibiliad o ddenu arian o ffynonellau eraill heblaw am y gyllideb addysg.
- Byddai Adran Materion Gwledig Llywodraeth y Cynulliad yn gosod canllawiau manwl ar faterion yn ymwneud â diogelwch plant mewn ACAu o ystyried eu defnydd gan bobl heblaw am staff addysgol. Ar yr ochr gadarnhaol, byddai torri lawr y gwahanfur rhwng ysgol fel sefydliad academaidd caeedig a'r gymuned hefyd o werth addysgol pendant.
- Mae perygl yn y Gymru gyfoes i'r Gymraeg gael ei chanfod fel iaith y drefn addysg yn unig. Trwy newid chwyldroadol o'r fath, byddai iaith y drefn addysg yn dylanwadu'n well ar iaith y gymuned leol. Trwy weithredu cyfundrefn newydd o'r fath, gellid dychwelyd y drafodaeth am ddyfodol ysgolion pentrefol o faterion yn ymwneud a "real estate" i faterion addysgol a diwylliannol priodol. Byddai Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gallu

dangos ei bod yn cynnig dyfodol newydd i gymunedau pentrefol Cymraeg. Gallai'r Asedau Cymunedol Allweddol fod yn beiriannau i adfywio'n cymunedau pentrefol ac yn foddion o sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy wedi'i gwreiddio ym mhrofiad union gymuned y disgybl ifanc.

Byddai hefyd yn gyfle i Lywodraeth y Cynulliad wneud gwir wahaniaeth i ragolygon ein cymunedau pentrefol trwy gynnig ateb unigryw Gymreig i bwnc sydd o bwys gan lawer o'n pobl.

Credwn yn olaf y gall fod yma ddull blaengar o wella safonau addysg y disgyblion trwy harneisio adnoddau sydd gan deuluoedd a chymunedau i'w cynnig. O fonitro datblygiadau cyfyngedig o'r fath, gall fod gwersi pwysig o ran trefniadaeth addysg yn y cymunedau trefol hefyd gan sicrhau gwreiddiau ym mhob cymdogaeth.

## Cymdeithas yr Iaith – Mehefin 2008